# Canllaw i blant: Cynllun Ffederasiwn Ysgolion

## Beth yw hwn?

Mae'r canllaw hwn yn egluro cynllun i ddwy ysgol — Ysgol Gymunedol Trimsaran ac Ysgol Gymraeg Ffwrnes — weithio'n agosach gyda'i gilydd mewn rhywbeth o'r enw 'ffederasiwn'.

## Beth yw Ffederasiwn?

Mae ffederasiwn yn golygu y bydd y ddwy ysgol yn cadw eu henwau ac yn aros yn eu cymunedau, ond byddan nhw'n rhannu un tîm o bobl (o'r enw Corff Llywodraethu) i helpu i redeg y ddwy ysgol.

## Pam ydym ni'n ystyried Ffederasiwn?

- Mae'r ddwy ysgol eisoes yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn rhannu Pennaeth - Mr Steffan Jones.
- Maen staff yr ysgolion yn gwneud hyfforddiant, gweithgareddau, ac yn helpu ei gilydd.
- Bydd gwneud hyn yn swyddogol yn eu helpu i weithio'n well gyda'i gilydd ac yn helpu'r holl ddisgyblion.

## Beth fydd yn aros yr un fath?

- Byddwch dal i fynd i'ch ysgol eich hun.
- Byddwch yn gwisgo'r un wisg ysgol.
- Bydd eich athrawon yn aros yr un fath.
- Bydd gan bob ysgol ei henw a'i hadeilad ei hun.

## Beth allai newid?

- Bydd un Corff Llywodraethu ar gyfer y ddwy ysgol.
- Efallai y bydd rhai staff newydd yn gweithio ar draws y ddwy ysgol.
- Efallai y bydd disgyblion yn ymweld â'r ysgol arall ar gyfer gweithgareddau dysgu neu hwyl.

## Beth yw'r pethau da am Ffederasiwn?

- Mwy o gyfleoedd i wneud gweithgareddau gyda mwy o blant.
- Mwy o help i athrawon a staff.
- Tîm cryf i arwain y ddwy ysgol.
- Mwy o ffyrdd i ddysgu a chael hwyl!

## Beth yw'r heriau gyda Ffederasiwn?

- **Mae'n cymryd amser i bawb ddod i arfer â gweithio gyda'i gilydd**, ond bydd staff ac arweinwyr yn cefnogi ei gilydd bob cam o'r ffordd. Rydym wedi bod yn gweithio gyda'n gilydd ers pum mlynedd a hanner.
- **Bydd gan athrawon a llywodraethwyr fwy o bethau i'w hystyried wrth ddechrau'r ffederasiwn**, ond maent yn gweithio fel tîm i sicrhau bod popeth yn rhedeg yn esmwyth i'r disgyblion.
- **Rhaid i bawb gytuno ar sut i wneud pethau gyda'i gilydd fel un tîm mawr**, a bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gynllunio gofalus a gwrando ar syniadau pawb.
- **Efallai y bydd rhai pobl yn ansicr ynghylch y newidiadau i ddechrau**, ond byddwn yn cymryd yr amser i egluro pethau'n glir ac yn helpu pawb i deimlo'n gyfforddus ac yn cael eu cefnogi – fel rydym wedi bod yn ei wneud ers y pum mlynedd a hanner diwethaf.

## Sut gallwch chi ddweud eich barn?

Bydd y Cyngor Ysgol yn trafod y cynnig.

Gallwch rannu eich syniadau a gofyn cwestiynau gyda'ch athrawon neu'r Cyngor Ysgol.

https://forms.office.com/e/bWKqgCtR6x

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Ar ôl i bawb gael cyfle i rannu eu syniadau gyda'r ysgolion, bydd yr ysgolion yn edrych ar bob ymateb yn ofalus. Bydd y bobl sy'n helpu i redeg yr ysgol (y Llywodraethwyr) yn gwneud y penderfyniadau nesaf. Bydd pawb yn cael gwybod os bydd rhywbeth yn newid a beth fydd yn digwydd nesaf. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud erbyn 12/11/2025.

## Pupil Guide: School Federation Proposal

### What is this about?

This guide explains a plan for two schools — Ysgol Gymunedol Trimsaran and Ysgol Gymraeg Ffwrnes — to work more closely together in something called a 'federation'.

### What is a Federation?

A federation means that the two schools will keep their names and stay in their communities, but they will share one team of people (called a Governing Body) to help run both schools.

### Why are we thinking about Federation?

- The two schools already work well together and share a Headteacher - Mr Steffan Jones.
- They do training, activities, and help each other.
- Making it official means the schools can be even better at working together and helping all children.

### What will stay the same?

- You will still go to your own school.
- You will wear the same uniform.
- Your teachers will stay the same.
- Each school keeps its name and building.

### What might change?

- There will be one Governing Body for both schools.
- Some new staff might work across both schools.
- Pupils might visit the other school for fun or learning activities.

### What are the good things about Federation?

- More chances to do activities with more children.
- More help for teachers and staff.
- A strong team to lead both schools.
- More ways to learn and have fun!

### What are the challenges of Federation?

- **It takes time for everyone to get used to working together**, but staff and leaders will support each other every step of the way. We have been working together for five and a half years.
- **Teachers and governors will have more things to think about when starting the federation**, but they are working as a team to make sure everything runs smoothly for pupils.
- **Everyone must agree on how to do things together as one big team**, and this will be done through careful planning and listening to everyone's ideas.
- **Some people might feel unsure about the changes at first**, but we will take time to explain things clearly and help everyone feel comfortable and supported as we have been doing for the last five and a half years.

### How can you have your say?

The School Council will talk about the proposal. You can share your ideas and ask questions with your teachers or the School Council.

https://forms.office.com/e/bWKqgCtR6x

### What happens next?

After everyone has had a chance to share their thoughts with the schools, the schools will look at all the ideas carefully. The people who help run the school (called the Governors) will make the next decisions. Everyone will be told if anything is going to change and what will happen next. A decision will be made by 12/11/2025.